



Site Stakeholder Group
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

**Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Ystafell Gynadledda Canolfan Ymwelwyr
Trawsfynydd**

Dydd Iau 12 Rhagfyr 2024 am 13:00

Agenda

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024
3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024
4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien
5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle – Tom Williams
6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Tanya MacLeod
7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Diweddariad ar Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd – Iwan Williams
8. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Dave Wallace
9. Diweddariad Cwmni Egino – Elli Williams
11. Unrhyw fater arall

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – 19 Mehefin 2025



**Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Trawsfynydd Visitor Centre Conference Room**

Thursday 12 December 2024 at 13:00pm

Agenda

1. Apologies for absence
2. Approve the minutes of the meeting held on 20 June 2024
3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 20 June 2024
4. Chairman's Address – Keith O'Brien
5. Site Director's Report – Tom Williams
6. Report by the Office for Nuclear Regulation Update – Tanya MacLeod
7. Report by Natural Resources Wales / Environment Agency Report Update- Iwan Williams
8. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Dave Wallace
9. Cwmni Eginio Update – Eiliw Williams
11. AOB

Date and time of next meeting – 19TH June 2025



**Crynodeb o'r prif bwyntiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a chyflwynodd ddiweddariad byr ar y materion ers y cyfarfod diwethaf.
2. Cyflwynodd Thomas G Williams Adroddiad Cyfarwyddwr Safle'r Nuclear Restoration Services (NRS)
3. Cyflwynodd Tanya MacLeod ddiweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR).
4. Rhoddodd Iwan Williams friff ar adroddiad ar y cyd Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd a ddosbarthwyd yn flaenorol.
5. Cyflwynodd Dave Wallace ddiweddariad ar faterion yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).



Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Iau 20 Mehefin 2024 am 13.00 o'r gloch
Canolfan Gynadledda

YN BRESENNOL

ENW

Y Cyng Keith O'Brien,
T G Williams
Elin P Jones
Rory Trappe
Beryl Williams
Chris Rayner
Gareth Hind
David Wallace
A McAteer
RP Owen
Nigel Wright
Paul Richardson
Steve Thomason
Andrew Innes
Tanya MacLeod
Iwan R Jones
Iwan Williams
Steve Harris
Gerallt Rhun
Abinard Ranganathan
Cathryn Pritchard
Mair Jones

Mynychwyd gan

Eleri Llewelyn Morris
Sydna Roberts

COFNODION

SEFYDLIAD

Cyngor Cymuned Trawsfynydd (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr y Safle
NRS
Grŵp Gweithwyr wedi Ymddeol Trawsfynydd
Grŵp Gweithwyr wedi Ymddeol Trawsfynydd
NRS Traws/Maentwrog
NRS Wylfa/Maentwrog
NDA
Maentwrog
NRS Traws
NRS Traws
NRS Traws
NRS Traws
ONR
Cyngor Gwynedd
Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd
Gwasanaeth NWF&R
Trawsnewid
Baringa (sylwedydd)
NRS
NRS

Cymen – Cyfieithydd
Cymen – cofnodwr

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod am 1pm. Nododd, oherwydd y cyfnod cyn Etholiad Cyffredinol, fod yr NDA wedi cyngori agenda gyfyngedig.

Croesawodd Abi Ranganathan o Baringa, y sefydliad sy'n edrych ar drefniadau Grwpiau Rhanddeiliaid Safle (SSG) ledled y DU, a oedd yn bresennol fel sylwedydd.

Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: -

Y Cyng Elfed Roberts; Cyngor Gwynedd
Gwen Pettifer; Merched y Wawr
Colin Tucker; preswylydd ym Mhenrhyndeudraeth
Bill Hamilton; Cyfarwyddwr Materion Allanol NRS
Kate Baxter; Rheolwr Cynaliadwyedd NRS
Elli Williams; Cwmni Eginio
Jonathon Holland; Gwasanaeth NWEF

Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu Tom Williams, Cyfarwyddwr newydd y Safle ar ôl i Angharad Rayner symud i swydd arall. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Grŵp ysgrifennu at Angharad Rayner i ddymuno'n dda iddi ac i ddiolch iddi am ei gwasanaethau yn Nhrawsfynydd. Roedd KO'B yn falch o gydnabod bod TW hefyd wedi ymrwymo'n llawn i'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyfaryfodydd yr SSG, ac i hybu a chefnogi cysylltiadau cymunedol lleol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyhoeddiad diweddar GBN a Llywodraeth Cymru ynghylch Trawsfynydd. Diolchodd i Gwmni Eginio am ei bresenoldeb yn y cyfarfod hwn a'r gwaith a wnaed hyd yma yn Nhrawsfynydd.

Roedd KO'B hefyd yn dymuno hyrwyddo digwyddiad lleol a oedd yn cynnwys Y Pelydrau, grŵp gwerin lleol, a fydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Bentref Trawsfynydd nos yfory (21.6.24).

Ni chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir, ar wahân i ddyddiad y cyfarfod dydd Iau 4 Rhagfyr 2023, a ddylai ddarllen ddydd Llun 4 Rhagfyr 2023.

Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023

Ni chodwyd unrhyw fater.

3. Anerchiad y Cadeirydd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gweithgarwch canlynol ers y cyfarfod diwethaf a'r cyfarfodydd arfaethedig.

- Cyfarfod Fforwm Cenedlaethol SSG ar 12 Ionawr 2024
- Adolygiad o SSG Traws – cyfarfodydd Teams un-i-un gyda Baringa
- Cyfarfod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda Phrif Weithredwyr 8-9 Gorffennaf ym Manceinion
- Uwchgynhadledd SSG yr NDA 2024 – 17-18 Medi 2024 ym Manceinion

4. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd – Thomas G Williams

Rhoddodd Thomas G Williams, Cyfarwyddwr y Safle, gefndir byr i'w yrfa hyd yma gan nodi ei fod wedi bod ar y safle ers 2009 a'i fod wedi bod yn Bennaeth Rheoli Gwastraff am y 5 mlynedd diwethaf. Diolchodd i'w

ragflaenydd, gan gydnabod ei hymrwymiad i'r Gymraeg a'i chefnogaeth i'r gymuned leol.

Aeth ymlaen i roi cyflwyniad i'r aelodau ar ddatblygiadau ar y safle ers y cyfarfod diwethaf, gan grynhoi fel a ganlyn: -

Lansio ein strategaeth 10 mlynedd

Dyweddodd TW nad yw'r strategaeth 10 mlynedd yn amlinellu unrhyw newidiadau mawr i Traws gan ei fod yn dal yn safle datgomisiynu a bod y cerrig milltir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf wedi bod yn hysbys i'r safle o'r blaen.

Canolbwyntio ar Ddiogelwch

Nodwyd bod 2842 diwrnod wedi mynd heibio heb anaf colli amser oherwydd bod gwaith helaeth yn cael ei wneud yn barhaus i sicrhau diogelwch o'r safon uchaf.

Iechyd a Llesiant

Cyfeiriodd TW at grŵp Iechyd a Llesiant rhagweithiol iawn ar y safle sy'n cynnal gweithgareddau ar gyfer y gweithlu cyfan. Dyma rai enghreifftiau,

- Digwyddiad Balchder
- Iechyd Dynion
- Trafodaethau anffurfiol ynghylch Iechyd Meddwl
- Digwyddiadau cymdeithasol e.e. Bingo

Proffil y gweithlu

	Nifer ar y Safle	Lleol %
NRS	220	93
Asiantaeth	15	67
Contractwyr	79	65
	314	75%

Prentisiaethau

Mae cyfanswm o 7 prentis ar y safle -
2 x Cynnal a chadw crefftau trydanol
1 x Cynnal a chadw crefftau mecanyddol
4 x Technegydd Diogelu RAD

Mae disgwyl pedwar prentis newydd ddechrau mis Awst 2024. Nododd TW fod rhai prentisiaid yn symud i ffwrdd ar ôl cwblhau eu cwrs ond y byddant, gobeithio, yn dychwelyd ym mhen hir a hwyr.

Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Nododd TW mai Kate Baxter yw Rheolwr Cynaliadwyedd NRS ac er nad yw'n bresennol heddiw, y gallai roi'r wybodaeth ddiweddaraf am greu Cynllun

Meistr Polisi Gwyrdd aml-flwyddyn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cyfeiriodd at brosiect plannu coed yn Eryri a gynhaliwyd gan wirfoddolwyr NRS. Mae'r ap 'Neighbourly' newydd ei ddatblygu bellach yn fyw ac yn agored i geisiadau am gymorth gan brosiectau lleol, ac mae Cwmni Seren yn adnewyddu'r hen ardd yn enghraifft dda.

STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg)

Ers mis Rhagfyr, mae'r safle wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau STEM ac wedi ymgysylltu ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo gyrfaedd lleol am flynyddoedd i ddod.

Cyflawniadau diweddar

Amlinellodd TW y cyflawniadau diweddar fel a ganlyn -

- 60^{fed} pecyn HAW wedi'i amgáu.
- Wedi gorffen gwagio tanciau storio silt.
- Wedi cyflenwi Llwythi Gwastraff Lefel Isel (LLWCs)
- Wedi cynnal arolygon o graidd yr adweithydd.
- Wedi cwblhau ac agor y cyfleuster lles newydd, yr Ysgwrn, yn unol ag adborth staff.

Prosiectau sydd ar y Gweill

Dyma'r prosiectau sydd ar y gweill -

- Cyfleuster carthion newydd – Cynnydd boddhaol yn ôl TW.
- Fframwaith cynllunio – y pwrpas yw rhoi arweiniad i Swyddogion Cynllunio a'r gymuned leol ar y weledigaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol.
- Ad-drefnu diogelwch y safle – mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda gyda Mitie a TD Plant, gyda'r cam cychwynnol i fod i gael ei gwblhau fis Awst. Cam terfynol y broses gaffael ar gyfer y gwaith gosod caledwedd diogelwch gyda Total Security Protection, gyda'r cam hwn o'r gwaith i ddechrau fis Medi.
- Dymchwel a gwaredu Cyfadeilad y Pyllau – diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf yr SSG.
- Lleihau uchder yr adweithydd – dyma fydd y prif brosiect dros y 12-24 mis nesaf.

Cyflwynodd TW fideo byr yn dangos y cynnydd hyd yma.

Grantiau Economaidd-gymdeithasol Magnox

Nododd TW fod dyraniad economaidd-gymdeithasol llawn NRS o £1.02m wedi cael ei ddefnyddio ym mlwyddyn ariannol 2023/24 gyda £317,787 yn cefnogi prosiectau sy'n agos i safle Trawsfynydd. Dyma'r buddiolwyr:

- Cafodd Byw'n lach, prosiect Llwybr Canwio Gwynedd £2K.
- Cefnogwyd Ysgol Bro Hedd Wyn Trawsfynydd i brynu tri bwrdd gwyn sgrin gyffwrdd mawr drwy £2820 o gyllid.
- Cafodd Hamdden Harlech ac Ardudwy £3000 i ariannu boeler newydd ar gyfer yr ystafell newid a'r caffi.
- Cafodd Côr y Brythoniaid £2000 tuag at gynhyrchu CDs coffaol i ddathlu 60 mlynedd fel côr lleol.
- Buddsoddiad o £10,000 i brosiect £36,425 Iard Clink Cell B ar gyfer pobl ifanc.
- Cefnogwyd Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid gyda £36,725 i ariannu'r gwaith technegol a'r diwygiadau i arolygon.
- Dyfarnwyd £500,000 i Menter Môn dros ddwy flynedd i ddatblygu cymunedau cydnerth ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd

Diolchodd y Cadeirydd i TW am ei ddiweddariad cynhwysfawr a nododd fod 3 safle Arwain a Dysgu yn y DU, a bod Trawsfynydd yn un ohonynt. Canmolodd ymroddiad y staff presennol a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gael prentisiaethau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Gofynnodd Beryl Williams a yw COVID yn dal i effeithio ar y gweithlu. Dywedodd TW fod y safle'n cadw cofnodion iechyd cadarn ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, oherwydd nad yw bellach yn ddyletswydd statudol ar weithleoedd i gynnal profion COVID, nid oes unrhyw gofnodion ffurfiol yn cael eu cadw yn hyn o beth.

5. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Tanya MacLeod
Cyflwynodd Tanya MacLeod ei hadroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Mawrth 2024, a oedd wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau yn flaenorol.

Roedd arolygiadau rheolaidd yn ystod y cyfnod wedi cynnwys y canlynol:

- rheoli gweithrediadau, gan gynnwys rheoli a goruchwylio
- rheoli gwastraff ymbelydrol
- datgomisiynu
- iechyd a diogelwch confensiynol (heb fod yn niwclear)
- diogelwch (efallai y caiff gwybodaeth ddiogelwch ei hychwanegu at yr adroddiad hwn yn dibynnu ar ei dosbarthiad)

Ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau arwyddocaol.

Cyfeiriodd TMcL at ddigwyddiad pan ddaeth olwyn ochr gefn i ffwrdd o lifft siswrn. Canfuwyd bod cydosodiad yr echelau wedi gwyro, gyda thystiolaeth o

ludded a chrydiad. Cysylltwyd â'r ONR dros y ffôn yn fuan ar ôl y digwyddiad a daeth yr arolygydd safle enwebedig draw yr wythnos wedyn i weld y lifft siswrn a thrafod y digwyddiad gyda'r rheolwr peirianeg yn uniongyrchol.

Mae'r ONR yn credu bod ymateb y deiliad dyletswydd i'r digwyddiad wedi bod yn ddigonol ac nid yw'n ystyried bod angen cymryd unrhyw gamau dilynol pellach.

Diolchodd y Cadeirydd i TM am ei ddiweddariad.

6. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru - Iwan Williams

Croesawyd Iwan Williams i'r cyfarfod a chyflwynodd ei adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ebrill 2024. Nododd nad oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi yn ystod y cyfnod ond ei fod yn fodlon ymateb i unrhyw ymholiadau gan aelodau. Dywedodd hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael i fynd i'r Cynghorau Cymuned lleol os oes angen.

Diolchodd y Cadeirydd i IW am ei ddiweddariad.

7. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Dave Wallace

Croesawyd Dave Wallace i'r cyfarfod ar ei ymweliad cyntaf â Thrawsfynydd. Roedd ei adroddiad wedi amlinellu diweddariadau Bwrdd yr NDA; gweithgareddau allgymorth yn Ch1 2024; yr holl flaenoriaethau ymgysylltu ar gyfer 2024; diweddariadau polisi a chyhoeddiadau, a'r manylion ynghylch Cyflawni'r Genhadaeth.

Croesawodd y Cadeirydd DW i'w gyfarfod cyntaf a diolchodd am ei grynodeb o'r adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol.

8. Diweddariad yr NDA – Bill Hamilton

Roedd Bill Hamilton wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau, ond cytunwyd y byddai ei gyflwyniad a drefnwyd ar brosiect Thinks Insight yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

9. Unrhyw fater arall

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y cyfrifoldeb dros Faentwrog a'r Llyn wedi cael ei drosglwyddo yn ôl i Drawsfynydd o Wylfa.
- Cyfeiriodd TW at y Tîm Gweithrediadau Gwastraff sydd wedi cael ei enwebu am wobwr am ei waith rhagorol ar y safle, a disgwylir y canlyniad yn ystod y misoedd nesaf.

10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2024

Amser: 1pm

Lleoliad: Canolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth â'r cyfarfod i ben
am 2.15 pm



Summary of the key points from the Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting held on the 20 June 2024

1. The Chair welcomed all to the meeting and presented a brief update on issues since the last meeting.
2. Thomas G Williams presented the NRS Site Director's Report
3. Tanya MacLeod presented an update from the ONR.
4. Iwan Williams gave a briefing on the NRW / EA joint report circulated previously.
5. Dave Wallace presented an update on NDA issues.



**Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Thursday 20 June 2024 13.00 hrs
Conference Centre**

MINUTES

PRESENT

NAME

Cllr. Keith O'Brien,
T G Williams
Elin P Jones
Rory Trappe
Beryl Williams
Chris Rayner
Gareth Hind
David Wallace
A McAteer
RP Owen
Nigel Wright
Paul Richardson
Steve Thomason
Andrew Innes
Tanya MacLeod
Iwan R Jones
Iwan Williams
Steve Harris
Gerallt Rhun
Abinard Ranganathan
Cathryn Pritchard
Mair Jones

ORGANISATION

Trawsfynydd Community Council (Chair)
Site Director
NRS
Trawsfynydd Retirees Group
Trawsfynydd Retirees Group
Traws/Maentwrog NRS
Wylfa/Maentwrog NRS
NDA
Maentwrog
Traws NRS
Traws NRS
Traws NRS
Traws NRS
Traws NRS
ONR
Cyngor Gwynedd
Natural Resources Wales / EA
NWF&R Service
Trawsnewid
Baringa (observer)
NRS
NRS

In Attendance

Eleri Llewelyn Morris
Sydna Roberts

Cymen - Translator
Cymen – minute taker

1. Welcome and Apologies

The Chair welcomed everyone to the meeting at 1pm. He noted that, due to the pre-General Election period the NDA has advised a limited agenda .

He welcomed Abi Ranganathan from Baringa the organisation that is looking at SSG arrangements across UK who was in attendance as an observer.

The following apologies were noted: -

Cllr. Elfed Roberts; Gwynedd Council
Gwen Pettifer; Merched y Wawr

Colin Tucker; Penrhyndeudraeth resident
Bill Hamilton; Director of External Affairs NRS
Kate Baxter; Sustainability Manager NRS
Elliw Williams; Cwmni Eginio
Jonathon Holland; NWEF Service

The Chair continued by welcoming Tom Williams the newly appointed Site Director following Angharad Rayner's move to another post. It was agreed by members that the SSG write to Angharad Rayner to wish her well and thank her for her services at Trawsfynydd. KO'B was pleased to recognise that TW is equally committed to give his full commitment to the Welsh Language at SSG meetings and promoting and supporting local community links.

The Chair referred to GBN and WG's recent announcement regarding Trawsfynydd. He thanked Cwmni Eginio's attendance at this meeting and the work undertaken to date at Trawsfynydd.

KO'B also wished to promote a local event featuring Y Pelydrau a local folk group to be held at Trawsfynydd Village Hall tomorrow night (21.6.24).

No Declarations of Interest were received.

2. Approve the Minutes of the meeting held on 4 December 2023

Minutes of the meeting held on 4 December 2023 were presented and accepted as a correct record pending the meeting date detail of Thursday 4 December 2023 *to read* Monday 4 December 2023.

Matters arising from the minutes of the meeting held on 4 December 2023

None raised.

3. Chairman's Address

The Chair referred to the following activity since the last meeting and proposed meetings.

- Meeting of the SSG National Forum on 12 January 2024
- Review of Traws SSG – one to one Teams meetings with Baringa
- Chair and Vice Chair meeting with Chief Executives 8-9 July in Manchester
- The 2024 NDA SSG Summit – 17-18 September 2024 in Manchester

4. Trawsfynydd Site Director's Report – Thomas G Williams

Thomas G Williams, Site Director gave a brief background to his career to date noting that he had been on site since 2009 and that he had been the Head of Waste Management for the past 5 years. He wanted to thank his predecessor acknowledging her commitment to the Welsh Language and her support to the local community.

He then went on to provide members with a presentation on site developments since the last meeting, summarised as follows: -

Launching of our 10 yr strategy

TW stated that the 10-year strategy outlines no big changes for Traws as it remains a decommissioning site and that the milestones for the next 5 years have been known to the site previously.

Safety Focus

It was noted that there had been 2842 days without lost time injury resulting from extensive work continually being undertaken to ensure the highest calibre of safety.

Health and Well-being

TW referred to a very proactive Health and Wellbeing group on site that hold activities for all the workforce examples of which were,

- Pride Event
- Men's Health
- Informal discussions re Mental Health
- Social events e.g. Bingo

Workforce Profile

	Number on Site	Local %
NRS	220	93
Agency	15	67
Contractors	79	65
	314	75%

Apprenticeships

There is a total of 7 apprentices on site -
2 X Electrical Craft maintenance
1 X Mechanical craft maintenance
4 X RAD Protection Technician

Four new apprentices are expected at the beginning of August 2024. TW noted that some apprentices move away following completion of their course but will, hopefully, return in the fullness of time.

Sustainability & Environment

TW noted that Kate Baxter is the NRS Sustainability Manager and although not present today she can provide an update on creating a multi-year Green Policy Master Plan at a future meeting. He referred to tree planting project in Eryri undertaken by NRS volunteers. The newly developed 'Neighbourly App' is now live and open to requests for support from local projects, Cwmni Seren renovating the old garden being a good example.

STEM (Science Technology Engineering & Mathematics)

Since December, the site has hosted a variety of STEM events and engaged with schools and colleges to promote local careers for years to come.

Recent achievements

TW outlined recent achievements as follows -

- 60th HAW package encapsulated.
- Completed the emptying of silt storage tanks.
- Delivery of Low Level Waste Consignments (LLWCs)
- Conducted survey works of the reactor core.
- Completed and opened the new welfare facility, known as Yr Ysgwrn, in accordance to staff feedback.

Current Projects

Current projects are -

- New sewage plant – TW reported satisfactory progress.
- Planning framework – purpose to provide guidance to both Planning Officers and the local community on the vision for the site going forward.
- Site security reconfiguration – works progressing well with Mitie and TD Plant with the initial phase due to complete in August. Final stage of procurement for the security hardware installation work with Total Security Protection, with this phase of the work to commence in September.
- Ponds Complex demolition and disposal – further update at the next SSG meeting.
- Reactor Height reduction – this will be the main project for the next 12-24 months.

TW presented a short video illustrating progress to date.

Magnox Socio-Economic grants

TW noted that the full £1.02m NRS socio-economic allocation was utilised for financial year 2023/24 with £317,787 of this supported projects close to Trawsfynydd site. Beneficiaries were as follows:

- Byw'n Iach, Gwynedd Canoe Pathway project received £2K.
- Supported Ysgol Bro Hedd Wyn Trawsfynydd to purchase three large touchscreen whiteboards via £2820 funding.
- Harlech Arudwy Leisure awarded £3000 to fund a new boiler for the changing room and Café area.

- Cor y Brythoniaid awarded £2000 towards the production of commemorative CD's celebrating 60 years as a local choir.
- £10,000 investment into Cell B's £36,425 Jail Yard project for young people.
- Supported Bala Lake Railway Trust with £36,725 to fund the technical work and amendments to surveys.
- £500,000 awarded to Menter Mon over two years to develop resilient communities on Anglesey and Gwynedd

The Chair thanked TW for his comprehensive update and noted that there are 3 Lead and Learn sites in the UK, Trawsfynydd being one of them. He praised the dedication of current staff and the opportunities available to young people to gain apprenticeships.

Question and Answer session.

Beryl Williams enquired whether COVID is still affecting the workforce. TW stated that the site maintains robust health records on all staff, however, in light that it is no longer a statutory duty on workplaces to undertake COVID tests no formal records on such are kept.

5. Report by the Office for Nuclear Regulation – Tanya MacLeod

Tanya McLeod presented her report for the period 1 Oct 2023 to 31 March 2024 previously circulated with papers.

Routine inspections during the period covered the following:

- management of operations including control and supervision
- radioactive waste management
- decommissioning
- conventional (non-nuclear) health and safety
- security (adding security information to this report will be dependent on its classification)

No significant issues were highlighted.

TMcL referred to an incident when a rear offside wheel came away from a scissor lift. It was found that the stub axle assembly had sheered with evidence of fatigue and corrosion. The ONR was contacted by telephone shortly after the incident and the nominated site inspector attended the week after to view the scissor lift and discuss the incident with the engineering manager directly.

ONR considers that the duty holder's response to the incident has been adequate and does not consider any further follow-up action is required.

The Chair thanked TM for her update.

6. Report by Natural Resources Wales – Iwan Williams

Iwan Williams was welcomed to meeting and presented his report which covered the period from November 2023 to April 2024. He noted that there were no concerns identified during the period but was happy to respond to any queries from members. He also stated that NRW are available to attend the local Community Councils if required.

The Chair thanked IW for his update.

7. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Dave Wallace

Dave Wallace was welcomed to the meeting on his first visit to Trawsfynydd. His report outlined NDA Board updates; outreach activities in Q1 of 2024; all engagement priorities for 2024; publications and policy updates and the detail regarding Mission Delivery.

The Chair welcomed DW to his first meeting and for his summary of the report previously circulated.

8. NDA update - Bill Hamilton

Bill Hamilton had tendered his apologies, but it was agreed that his scheduled presentation on the Thinks Insight project will be delivered at a future meeting.

9. AOB

- The Chair stated that he was pleased that the responsibility for Maentwrog and the Lake had been transferred back to Trawsfynydd from Wylfa.
- TW referred to the Waste Operations Team which has been nominated for an award for their outstanding work on site with the result expected in the next few months.

10. Date and time of next meeting

Date: 12 December 2024

Time: 1pm

Venue: Trawsfynydd Conference and Induction Centre

The Chair thanked everyone for their attendance and closed the meeting at 2.15 pm



Office for
Nuclear Regulation

Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear

Adroddiad Safle'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear (yr
ONR)

Gwasanaethau Adfer Niwclear – Trawsfynydd

Adroddiad Safle'r ONR

Gwasanaethau Adfer Niwclear - Trawsfynydd

Adroddiad am y cyfnod: 1 Ebrill 2024 - 30 Medi 2024

Ysgrifennwyd gan: Arolygwr Safle Enwebedig, Arolygwr Rhanbarth
Cymru yr NRS a Chorfforaeth yr NRS

Cymeradwywyd gan: Swyddog Arweiniol Cyflawni Datgomisiynu,
Tanwydd a Gwastraff

Rhif Cyhoeddi.: #

Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeiriad Cofnod yr ONR Rhif: 2024/40257

Rhagair

Rhyddheir yr adroddiad hwn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau fod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddio sy'n ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau ar gyfer y Grŵp Gwasanaethau Diogelwch (yr SSG) ac maent hefyd ar gael ar ein gwefan (<http://www.onr.org.uk/lc/>).

Fel arfer, mae ein harolygwyr safle'n mynd i gyfarfodydd yr SSG lle cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sy'n dymuno ymholi ynghylch materion a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad hwn gysylltu â ni trwy e-bost yn contact@onr.gov.uk

Cynnwys

1. Arolygiadau**Error! Bookmark not defined.**
2. Materion Arferol**Error! Bookmark not defined.**
3. Materion Anarferol**Error! Bookmark not defined.**
4. Gweithgaredd Rheoleiddio.....**Error! Bookmark not defined.**
5. Newyddion gan yr ONR**Error! Bookmark not defined.**
6. Cysylltiadau.....**Error! Bookmark not defined.**

1. Arolygiadau

1.1. Dyddiad(au) arolygiadau

Cynhaliodd arolygwr safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiadau a ganlyn yn ystod cyfnod adrodd 1 Ebrill 2024 - 30 Medi 2024:

- 11 - 12 Mehefin 2024
- 26 – 27 Mehefin 2024
- 24 Medi 2024

2. Materion Arferol

2.1. Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau fel rhan o'r broses i fonitro y cydymffurfir a:

- Yr amodau a roddodd yr ONR ynghlwm wrth drwydded y safle niwclear a ganiatawyd dan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'u diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2023;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed dan HSWA 74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017 (IRR17) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r gwaith arolygu'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau achosion diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai gael effaith ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a gweithredu arnynt o dan yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith. Ceisia arolygiadau farnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'r gweithredu arnynt.

Yn y cyfnod hwn, roedd gwaith arolygu arferol yn Nhrawsfynydd yn cynnwys yr isod:

- rheoli gweithrediadau yn cynnwys rheoli a goruchwyllo
- rheoli gwastraff ymbelydrol
- hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff
- datgomisiynu
- iechyd a diogelwch confensiynol (anniwclear)
- diogeledd (bydd ychwanegu gwybodaeth am ddiogeledd at yr adroddiad hwn yn dibynnu ar ei ddosbarthiad)

Gall aelodau o'r cyhoedd a fyddai'n dymuno rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau arolygu yn ystod y cyfnod adrodd ddarllen Adroddiadau Ymyrraeth y safle yn www.onr.org.uk/intervention-records.

Pe byddai gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein gweithgareddau arolygu, anfonwch e-bost contact@onr.gov.uk.

2.2. Gwaith Arall

Trwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae ein harolygwr diogelwch y safle wedi cynnal cyfarfod bob pythefnos gyda chynrychiolydd tîm arweinyddiaeth Trawsfynydd. Nod y cyfarfod oedd cynnal ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ar faterion yn ymwneud â diogelwch, diogeledd, diogeliadau, trafniadau ac iechyd a diogelwch confensiynol, yn cynnwys gwytnwch y gweithlu, gwytnwch trefniadau brys, diogelwch tân, digwyddiadau a gweithgareddau eraill ar y safle. Ni thynnwyd unrhyw broblemau arwyddocaol at sylw'r ONR.

3. Materion Anarferol

Mae'n ofynnol i drwyddedeion fod â threfniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anarferol. Bydd ein harolygon yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys camau a gymerir i weithredu ar unrhyw welliannau angenrheidiol.

Nid oedd materion na digwyddiadau o arwyddocâd o'r fath yn ystod y cyfnod.

.

4. Gweithgaredd Rheoleiddio

Gellwn gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoleiddio. O dan amodau trwydded safle niwclear, cyhoeddwn ddogfennau rheoleiddio, sydd un ai'n caniatáu gweithgaredd neu sy'n gofyn am gymryd rhyw fath o gamau; yn dorfol, caiff y rhain, fel arfer, eu galw'n 'Offerynnau Trwydded' ond gallant ddod dan enw arall. At hyn, gallai arolygwyr gymryd ystod o gamau gorfodi, yn cynnwys cyflwyno hysbysiad gorfodi.

- Ni chafodd yr un offeryn trwydded, hysbysiad gorfodi na llythyr gorfodi ei gyflwyno yn ystod y cyfnod hwn:

5. Newyddion gan yr ONR

Am y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gennym, darllenwch ein newyddlen rheolaidd, 'ONR News', a ddaw drwy e-bost a thanysgrifio iddo yn www.onr.org.uk/onrnews.

6. Cysylltiadau

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS

Gwefan: www.onr.org.uk

e-bost: Contact@onr.gov.uk

Am ragor o wybodaeth amdanom, neu i roi gwybod i ni am anghysonderau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.

Am ddogfennau cyhoeddiedig, mae'r copi electronig ar ein gwefan yn parhau i fod y fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac wrth gopïo neu argraffu'r ddogfen, ni fydd modd ei rheoli.



Office for
Nuclear Regulation

ONR Site Report

Nuclear Restoration Services – Trawsfynydd

ONR Site Report

Nuclear Restoration Services - Trawsfynydd

Report for period: 1 April 2024 – 30 September 2024

Authored by: Nominated Site Inspector, NRS Welsh Region and NRS Corporate Inspector

Approved by: Delivery Lead Decommissioning, Fuel, and Waste

Issue No.: #

Publication Date: October 2024

ONR Record Ref. No.: 2024/40257

Foreword

This report is issued as part of our commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the SSG and are also available on our website (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Our site inspectors usually attend SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact us via email at contact@onr.gov.uk.

Contents

1. Inspections 4

2. Routine Matters 5

3. Non-Routine Matters 7

4. Regulatory Activity 8

5. News from ONR 9

6. Contacts 9

1. Inspections

1.1. Date(s) of Inspection

The ONR site inspector made inspections on the following dates during the report period 1 April 2024 – 30 Sept 2024:

- 11 - 12 June 2024
- 26 – 27 June 2024
- 24 Sept 2024

2. Routine Matters

2.1. Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013;
- the Health and Safety at Work etc Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 2017 (IRR17) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring the licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, routine inspections of Trawsfynydd covered the following:

- management of operations including control and supervision
- radioactive waste management
- staff training, qualifications and experience
- decommissioning
- conventional (non-nuclear) health and safety
- security (adding security information to this report will be dependent on its classification)

Members of the public, who would like further information on our inspection activities during the reporting period, can view site Intervention Reports at www.onr.org.uk/intervention-records.

Should you have any queries regarding our inspection activities, please email contact@onr.gov.uk.

2.2. Other Work

Throughout this reporting period, our nominated site safety inspector has held fortnightly meetings with a Trawsfynydd leadership team representative. The aim of the meetings has been to maintain situational awareness on matters related to nuclear safety, security, safeguards, transport, and conventional health and safety, including workforce resilience, emergency arrangements resilience, fire safety, events and other site activities. No significant issues were highlighted to ONR.

3. Non-Routine Matters

